## ATODLEN 1

Rheoliad 1

### Y RHEOLIADAU A DDIRYMWYD

| *Y Rheoliadau a ddirymwyd* | *Cyfeirnodau* | *Rhychwant y dirymu* |
|---|---|---|
| Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 | O.S. 2004/1026 (Cy.123) | Y rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004 | O.S. 2004/2914 (Cy.253) | Rheoliad 5 |
| Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005 | O.S. 2005/1396 (Cy.110) | Rheoliad 5 |
| Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 | O.S. 2005/3239 (Cy.244) | Paragraff 13 o Atodlen 2 |
| Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007 | O.S. 2007/3563 (Cy.313) | Y rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2010 | O.S. 2010/2431 (Cy. 209) | Rheoliad 7 |

## ATODLEN 2

Rheoliad 6

### YR WYBODAETH DROSGLWYDDO GYFFREDIN

**1.** Yr wybodaeth ganlynol am y disgybl—

(a) rhif unigryw disgybl;

(b) rhif unigryw dysgwr, os yw'n hysbys;

(c) cyfenw;

(ch) enw(au) cyntaf;

(d) dyddiad geni;

(dd) rhyw;

(e) grŵp ethnig;

(f) hunaniaeth genedlaethol;

(ff) pwy a ddarparodd yr wybodaeth am grŵp ethnig y disgybl;

(g) iaith gyntaf y disgybl;

(ng) pa mor rhugl yw'r disgybl yn y Gymraeg;

(h) a yw'r disgybl yn siarad Cymraeg gartref neu beidio;

(i) pwy a ddarparodd yr wybodaeth am ba mor rhugl yw'r disgybl yn y Gymraeg ac a yw'r disgybl yn siarad Cymraeg gartref; ac

(j) a yw'r disgybl, yn unol ag adrannau 512(3) a 512ZB o Ddeddf 1996(**1**), wedi gwneud cais ac a gafwyd ei fod yn gymwys i gael prydau am ddim yn yr ysgol.

**2.** Pan fo'r disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, datganiad cryno am lefel ddysgu'r disgybl o'i asesu yn erbyn y lefelau cyflawniad canlynol—

(a) "Newydd i Saesneg" ("*New to English*");

(b) "Wedi Dysgu'n Ifanc" ("*Early Acquisition*");

(c) "Wedi Magu Cymhwysedd" ("*Developing Competence*");

(ch) "Cymwys" ("*Competent*"); neu

(d) "Rhugl" ("*Fluent*").

**3.** A oes gan y disgybl anghenion addysgol arbennig ac, os felly, cadarnhad o'r canlynol—

(a) prif angen y disgybl ac unrhyw angen eilaidd a nodwyd;

(b) y math o ddarpariaeth AAA sy'n rhan o'r ymagwedd raddedig a fabwysiadwyd yn unol â "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru"(**2**), a ddyroddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996 sy'n cael ei gwneud ar gyfer y disgybl hwnnw; ac

(c) y cymorth sy'n cael ei roi.

**4.** Pan fo'r disgybl yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, y ffaith honno ac enw'r awdurdod lleol hwnnw.

**5.** Manylion y cyfeiriad lle mae'r disgybl yn preswylio fel rheol.

**6.** Cyfenw o leiaf un person cyswllt a manylion ei berthynas â'r disgybl.

**7.** Dangosydd bod gwybodaeth feddygol yn bodoli a allai fod yn berthnasol i ysgol newydd y disgybl.

**8.** Cyfanswm—

(a) y sesiynau yn y flwyddyn ysgol hyd at y dyddiad y mae'r disgybl yn peidio â bod yn gofrestredig yn yr hen ysgol;

(b) y sesiynau yn y flwyddyn ysgol a fynychwyd gan y disgybl; ac

(c) absenoldebau awdurdodedig ac absenoldebau anawdurdodedig y disgybl (o fewn ystyr Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**3**)) yn y flwyddyn ysgol.

**9.** Y rhif ALl a'r rhif ysgol ar gyfer yr hen ysgol yn ogystal â'r ysgol newydd.

---

(**1**) Rhoddwyd adrannau 512 a 512ZB, ynghyd ag adran 512ZA, yn lle adran 512 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), adran 201(1). Mewnosodwyd adran 512ZB(4)(a)(iia) gan Atodlen 3, paragraff 16(1) a (3) o Ddeddf Diwygio Lles 2007 (p.5) a diwygiwyd adrannau 512 a 512ZB ymhellach gan O.S. 2010/1158. Diddymwyd adran 512ZB(4)(a)(i) gan Ddeddf Diwygio Lles 2009 (p.24), Rhan 1 o Atodlen 7. Diwygiwyd adran 512ZB(4) gan Ddeddf Tlodi Plant 2010 (p.9), adran 26(1)(b), (c) a (d).

(**2**) ISBN 0750427574.

(**3**) O.S. 2010/1954 (Cy. 187).